

Thema 5 Nodiadau athrawon: Allwn ni osgoi gwastraff?

Cyfnod Sylfaen:	
<p>Crynodeb o'r ymholiad: I ddechrau, mae dysgwyr yn ysgogi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth flaenorol am yr hyn maen nhw'n meddwl yw gwastraff. Maent yn ystyried yr hyn sy'n cael ei wastraffu yn yr ysgol a lle mae hyn yn digwydd, a sut i gasglu, cofnodi a chyflwyno eu data eu hunain am wastraff. Mae dysgwyr yn ystyried yr hyn sydd yn y bin dosbarth a sut y gellir lleihau swm y sbwriel sy'n cael ei daflu iddo. Yn olaf, maent yn archwilio beth sy'n cael ei wastraffu mewn blychau cinio pecyn.</p>	<p>Cysylltiadau â'r Cwricwlwm a'r FfLIRh: CS: Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd Lleoedd a phobl; Fi fy hun a phethau byw eraill</p> <p>FfLIRh: Defnyddio sgiliau mesur: Hyd, pwysau/màs, cynhwysedd Defnyddio data: Casglu a chofnodi data; Cyflwyno a dadansoddi data; Dehongli canlyniadau</p> <p>FfCD: Cynhyrchu; Data a meddwl cyfrifiadurol</p>

<p>Sgrin</p> <p>1</p>	<p>Defnyddio'r sgrin: Ar y sgrin hon, gofynnir y cwestiwn 'Beth yw gwastraff?' i ddysgwyr. Gofynnir iddynt greu map meddwl* i ddangos eu syniadau, er y gallant ddechrau ddefnyddio meddwl-paru-rhannu* i fynegi eu meddyliau i ddechrau.</p> <p>Mae cwestiynau yn annog dysgwyr i ystyried beth mae'r gair 'gwastraff' yn ei olygu, beth mae pobl yn ei wastraffu a'r hyn maen nhw'n ei feddwl yw'r gwastraff mwyaf.</p> <p>Mae gweithgaredd yn annog dysgwyr i dynnu llun sut mae y gwastraff yn edrych, cymryd ffotograffau o wastraff yn yr ysgol ac yn y cartref a gofyn i ffrindiau a theulu beth maen nhw'n ei feddwl yw gwastraff.</p>	<p>Cyfle dysgu: Mae dysgwyr yn ystyried beth yw gwatraft.</p> <p>Adnoddau ychwanegol: http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130429how-to-develop-thinking-cy.pdf</p> <p>Cysylltiadau defnyddiol: https://www.keepwalestidy.cymru/Pages/Site/cy/Category/e-co-sgolion</p>
-------------------------------------	---	--

<p>Sgrin</p> <p>2</p>	<p>Defnyddio'r sgrin:</p> <p>Ar y sgrin hon mae gweithgaredd rhyngweithiol o'r enw 'Beth ydym ni'n ei wastraffu yn yr ysgol?'</p> <p>Mae dysgwyr yn ystyried beth sy'n cael ei wastraffu, yn eu barn nhw, a lle gallai hyn ddigwydd. Yn ddefnyddiol, byddai hyn yn cael ei ddefnyddio gyda dosbarth cyfan ar fwrdd gwyn rhyngweithiol neu gyda grwpiau bach yn edrych ar y sgrin.</p> <p>Mae gweithgaredd mewn swigen yn gwahodd dysgwyr i edrych o amgylch holl ardaloedd yr ysgol a chadw cofnod o unrhyw wastraff y maent yn ei ddarganfod. Efallai y byddant wedi'i hannog i gymryd ffotograffau o wastraff y maent yn dod o hyd iddo a gellid defnyddio'r rhain fel ysgogiad i hyrwyddo trafodaeth bellach.</p>	<p>Cyfle dysgu:</p> <p>Mae dysgwyr yn ystyried yr hyn sy'n cael ei wastraffu yn yr ysgol a lle mae hyn yn digwydd.</p>
<p>Sgrin</p> <p>3</p>	<p>Defnyddio'r sgrin:</p> <p>Mae delweddau o wahanol fathau o wastraff ysgol bob dydd yn ymddangos ar y sgrin, ynghyd â 3 chylch a'r geiriau, 'Lleihau', 'Ailddefnyddio' ac 'Ailgylchu'. Gellir llusgo'r geiriau i'r cylchoedd fel teitlau. Mae'r delweddau'n cynnwys gwastraff cinio pecyn, gwastraff cinio ysgol a gwastraff sy'n nodweddiadol mewn biniau ystafell ddosbarth.</p> <p>Gofynnir i ddysgwyr lusgo a gollwng y delweddau i grwpiau, gan ddefnyddio'r cylchoedd ac i roi teitl i bob grŵp neu ddefnyddio'r geiriau a ddarperir. I gychwyn, gellid cyfeirio dysgwyr i ddefnyddio dau gylch a rhoi maen prawf os oes angen. Gellid cynyddu galw'r dasg drwy gael dysgwyr yn penderfynu ar eu maen prawf eu hunain, rhoi dau faen prawf iddyn nhw ac yn y blaen. Fel arall, efallai y gofynnir i'r dysgwyr</p>	<p>Cyfle dysgu:</p> <p>Mae dysgwyr yn ystyried sut i gasglu, cofnodi a chyflwyno eu data eu hunain.</p> <p>Adnoddau ychwanegol:</p> <p>http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130429how-to-develop-thinking-cy.pdf</p>

	<p>gwblhau'r dasg mewn modd penagored, gan ddarparu cyfleoedd i'r rhai sy'n gweithio ar lefelau uwch gynhyrchu diagram Venn* os ydynt yn dewis gwneud hynny.</p> <p>I gychwyn, gallai dysgwyr ddefnyddio meddwl-paru-rhannu* i fynegi eu syniadau ynglŷn â sut y gellid didoli a dosbarthu'r delweddau. Mae cwestiynau yn annog dysgwyr i ystyried sut maent wedi didoli a dosbarthu'r delweddau ac i feddwl am ffyrdd eraill y gallent eu didoli a'u dosbarthu. Elfen bwysig o'r dasg hon yw bod pob dysgwr yn cael y cyfle i ddewis sut y bydd yn gwneud y dasg. Bydd hyn yn arwain at ystod o syniadau ac ymagweddau a bydd cyflwyno geirfa wyddonol yn debygol iawn o ddigwydd drwy gyfrwng trafodaethau dysgwyr.</p>	
<p>Sgrin</p> <p>4</p>	<p>Defnyddio'r sgrin:</p> <p>Gofynnir i ddysgwyr ystyried beth sydd yn y bin dosbarth, sut y gellir lleihau faint o sbwriel sy'n cael ei daflu i'r bin ac i ddangos faint o bob peth sydd yn y bin.</p> <p>Mae gweithgaredd yn gwahodd dysgwyr i archwilio cynnwys y bin ym mhob ystafell ddosbarth yn yr ysgol. Efallai y byddant yn cadw cofnod o ganfyddiadau ac yn cymharu hyn â'r bin yn eu hystafell ddosbarth eu hunain.</p> <p>Gofynnir i ddysgwyr ystyried sut y gallant fesur faint o wastraff sydd yn y bin ym mhob dosbarth. Fe'u gwahoddir i ddefnyddio eu hymchwil i baratoi sgwrs sy'n anelu at annog pob dosbarth i daflu llai yn eu bin bob dydd. Gallai dysgwyr fesur y gwastraff eto yn y dyddiau sy'n dilyn i werthuso a oedd eu syniadau yn effeithiol i leihau gwastraff.</p>	<p>Cyfle dysgu:</p> <p>Mae dysgwyr yn ystyried yr hyn sydd yn y bin dosbarth a sut y gellir lleihau swm y sbwriel sy'n cael ei daflu iddo.</p> <p>Adnoddau ychwanegol:</p> <p>Cynhwysyddion gwag o'r eitemau a ddangosir ar y sgrin, blociau/ciwbiau.</p>
<p>Sgrin</p> <p>5</p>	<p>Defnyddio'r sgrin:</p> <p>Ar y sgrin hon mae gweithgaredd rhyngweithiol o'r enw 'Beth sydd i ginio heddiw?'. Mae dau flwch cinio sy'n agor pan fyddwch yn clicio arnynt. Mae un yn cynnwys</p>	<p>Cyfle dysgu:</p> <p>Mae dysgwyr yn ystyried yr hyn sy'n cael ei wastraffu mewn blychau cinio pecyn.</p>



	<p>llawer o wastraff tebygol, a'r llall yn cynnwys ychydig iawn. Gofynnir i ddysgwyr ystyried beth fydd yn cael ei wastraffu ym mhob blwch cinio ac i gymharu'r ddau.</p> <p>Mae gweithgaredd yn gwahodd dysgwyr i edrych y tu mewn i bob un o flychau cinio pecyn y dosbarth, cyn ac ar ôl cinio. Cyn cinio, anogwch nhw i ragweld beth fydd yn cael ei wastraffu ac i gofnodi'r hyn a gafodd ei wastraffu, ar ôl cinio. Mae cwestiynau cefnogi yn annog dysgwyr i ystyried faint o bob peth sydd wedi'i wastraffu a sut y gallent ddangos yr wybodaeth hon mewn rhestr neu dabl.</p>	<p>Adnoddau ychwanegol: Cynhwysyddion gwag o'r eitemau a ddangosir ar y sgrin, blociau/ciwbiau.</p>
--	--	--



Cyfnod Allweddol 2

Crynodeb o'r ymholiad:

I ddechrau, mae dysgwyr yn ysgogi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth flaenorol ynghylch beth yw gwastraff. Maent yn ystyried sut i gasglu, cofnodi a chyflwyno eu data eu hunain, cyn cynllunio a chynnal ymgyrch i leihau gwastraff dosbarth. Mae dysgwyr yn archwilio sut y gellid lleihau gwastraff bwyd yn yr ysgol a sut y gallent helpu i leihau gwastraff cartrefi.

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm a'r FfLIRh:

CA2: Gwyddoniaeth:

Cyd-ddibyniaeth organebau; Y Ddaear gynaliadwy

CA2: Dylunio a thechnoleg:

Bwyd

CA2: TGCh:

Sgiliau; Ystod

FfLIRh:

Defnyddio sgiliau mesur:

Hyd, pwysau/màs, cynhwysedd

Defnyddio data:

Casglu a chofnodi data; Cyflwyno a dadansoddi data; Dehongli canlyniadau

FfCD:

Cynhyrchu; Data a meddwl cyfrifiadurol

Sgrin

1

Defnyddio'r sgrin:

Ar y sgrin hon, gofynnir y cwestiwn 'Beth yw gwastraff?' i ddysgwyr. Gofynnir iddynt greu map meddwl* i ddangos eu syniadau, er y gallant ddechrau ddefnyddio meddwl-paru-rhannu* i fynegi eu meddyliau i ddechrau.

Mae cwestiynau yn annog dysgwyr i ystyried beth mae'r gair 'gwastraff' yn ei olygu, beth mae pobl yn ei wastraffu a'r hyn maen nhw'n ei feddwl yw'r gwastraff mwyaf.

Mae gweithgaredd yn annog dysgwyr i dynnu llun sut mae y gwastraff yn edrych, cymryd ffotograffau o wastraff yn yr ysgol ac yn y cartref a gofyn i ffrindiau a theulu

Cyfle dysgu:

Mae dysgwyr yn ystyried beth yw gwastraff.

Adnoddau ychwanegol:

<http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130429how-to-develop-thinking-cy.pdf>

Cysylltiadau defnyddiol:

<https://www.keepwalestidy.cymru/Pages/Site/cy/Category>

	beth maen nhw'n ei feddwl yw gwastraff.	/eco-sgolion
Sgrin 2	<p>Defnyddio'r sgrin:</p> <p>Mae delweddau o wahanol fathau o wastraff dyddiol a geir mewn ysgol yn ymddangos ar y sgrin, ynghyd â diagram Venn 3 cylch a'r geiriau, 'Lleihau', 'Ailddefnyddio' ac 'Ailgylchu'. Gellir llusgo'r geiriau i'r cylchoedd fel teitlau. Mae'r delweddau'n cynnwys gwastraff cinio pecyn, gwastraff cinio ysgol a gwastraff sy'n nodweddiadol mewn biniau ystafell ddosbarth.</p> <p>Mae dysgwyr yn llusgo a gollwng y delweddau yn grwpiau, gan ddefnyddio'r cylchoedd, geiriau a'r diagram Venn a ddarperir. I gychwyn, gallai dysgwyr ddefnyddio meddwl-paru-rhannu* i fynegi eu syniadau ynglŷn â sut y gellid didoli a dosbarthu'r delweddau.</p> <p>Mae cwestiynau yn annog dysgwyr i ystyried sut maent wedi didoli a dosbarthu'r delweddau ac i feddwl am ffyrdd eraill y gallent eu didoli a'u dosbarthu. Elfen bwysig o'r dasg hon yw bod pob dysgwr yn cael y cyfle i ddewis sut y bydd yn gwneud y dasg. Bydd hyn yn arwain at ystod o syniadau ac ymagweddau a bydd cyflwyno geirfa wyddonol yn debygol iawn o ddiwydd drwy gyfrwng trafodaethau dysgwyr.</p>	<p>Cyfle dysgu:</p> <p>Mae dysgwyr yn ystyried sut i gasglu, cofnodi a chyflwyno eu data eu hunain.</p> <p>Adnoddau ychwanegol:</p> <p>http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130429how-to-develop-thinking-cy.pdf</p>
Sgrin 3	<p>Defnyddio'r sgrin:</p> <p>Mae dysgwyr yn ystyried sut y gellid lleihau gwastraff yn yr ystafell ddosbarth. Gofynnir iddynt edrych ar gynnwys bin sbwriel y dosbarth a chofnodi eu syniadau mewn tabl ar y sgrin.</p> <p>Mae gweithgaredd yn gwahodd dysgwyr i gynllunio ymgyrch i leihau gwastraff dosbarth ar draws yr ysgol. Fe'u hanogir i ystyried sut y byddant yn mesur gwastraff dosbarth, sut</p>	<p>Cyfle dysgu:</p> <p>Mae dysgwyr yn cynllunio ac yn cynnal ymgyrch i leihau gwastraff dosbarth.</p>

	<p>y byddant yn dangos y data hwn a sut y byddant yn defnyddio'r data hwn i berswadio pob dosbarth i leihau gwastraff. Anogir dysgwyr i ystyried pam y gallai eu hymgyrch weithio a'r targedau y gallent eu gosod i bob dosbarth.</p> <p>Fe'ch cynghorir i ganiatáu i ddysgwyr gyflawni'r ymgyrch er mwyn iddynt gael y budd mwyaf o'r gweithgaredd hwn. Efallai eu bod yn cael eu hannog i fonitro gwastraff dosbarth yn ystod yr ymgyrch a gwerthuso'r ymgyrch o ran llwyddiant ac effaith. Darperir mynediad at lyfr gwaith Excel er mwyn annog dysgwyr i lunio siartiau bar neu graffiau i gofnodi mesuriadau wrth iddynt fonitro eu hymgyrch.</p>	
<p>Sgrin 4</p>	<p>Defnyddio'r sgrin:</p> <p>Mae dysgwyr yn archwilio sut y gellid lleihau gwastraff bwyd yn yr ysgol. I ddechrau, maent yn rhagfynegi pa wastraff sydd o ginio ysgol ac yn defnyddio graffiau rhyngweithiol i ddangos eu syniadau.</p> <p>Mae gweithgaredd yn gwahodd dysgwyr i gynllunio adolygiad o ginio ysgol ac adrodd am eu canfyddiadau. Fe'u hanogir i gynnwys argymhellion ynghylch sut y gellid lleihau gwastraff ac ystyried sut y gallant fesur bwyd wedi'i wastraffu, beth i'w wneud â'r wybodaeth hon, pwy i gyfweld a sut orau i ddefnyddio eu canfyddiadau mewn adroddiad sy'n cynnwys argymhellion.</p> <p>Mae gweithgaredd pellach posibl yn gwahodd dysgwyr i gynllunio a chynnal astudiaeth i leihau'r gwastraff o flychau cinio pecyn.</p>	<p>Cyfle dysgu:</p> <p>Mae dysgwyr yn archwilio sut y gellid lleihau gwastraff bwyd yn yr ysgol.</p>
<p>Sgrin 5</p>	<p>Defnyddio'r sgrin:</p> <p>Mae dysgwyr yn ystyried sut y gallent helpu i leihau gwastraff cartrefi. Gofynnir iddynt gael mynediad at wefan ystadegau Llywodraeth Cymru ac adolygu data sy'n ymwneud â chyfraddau ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio. Gall dysgwyr leoli ac ymholi data ar gyfer eu hawdurdod eu hunain a'i gymharu â data'r awdurdodau eraill yng Nghymru. Darperir cwestiynau cefnogi i annog trafodaeth.</p>	<p>Cyfle dysgu:</p> <p>Mae dysgwyr yn ystyried sut y gallent helpu i leihau gwastraff cartrefi.</p> <p>Cysylltiadau defnyddiol:</p> <p>https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue</p>



	<p>Mae gweithgaredd yn gwahodd dysgwyr i gynllunio strategaeth i leihau gwastraff o’u cartrefi nhw eu hunain. Efallai y byddant yn ystyried sut i fesur canran y gwastraff cartref sy'n cael ei aildefnyddio/ailgylchu neu ei gompostio a sut y gellid lleihau hyn yn gyffredinol. Dylech annog dysgwyr i weithredu eu strategaeth ac i gasglu data y gellir ei ddefnyddio i ddangos a yw eu strategaeth wedi bod yn effeithiol. Gallant hefyd roi gwybod am y canfyddiadau i'r dosbarth.</p>	
--	---	--



Cyfnod Allweddol 3

Crynodeb o'r ymholiad:

I ddechrau, mae dysgwyr yn ysgogi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth flaenorol am wastraff, cyn iddynt archwilio data a chynllunio strategaeth i leihau gwastraff cartrefi. Mae dysgwyr yn archwilio ffeithiau a honiadau a wneir am wastraff tirlenwi. Yn olaf, maent yn ystyried a ellir gwella cyfraddau ailgylchu ysgolion trwy ymgyrch weithgar.

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm a'r FflIRh:

CA2: Gwyddoniaeth:

Cyd-ddibyniaeth organebau; Y Ddaear gynaliadwy

CA2: Dylunio a thechnoleg:

Bwyd

CA2: TGCh:

Sgiliau; Ystod

FflIRh:

Defnyddio sgiliau mesur:

Hyd, pwysau/màs, cynhwysedd

Defnyddio data:

Casglu a chofnodi data; Cyflwyno a dadansoddi data; Dehongli canlyniadau

FfCD:

Cynhyrchu; Data a meddwl cyfrifiadurol

<p>Sgrin</p> <p>1</p>	<p>Defnyddio'r sgrin:</p> <p>Ar y sgrin hon, gofynnir y cwestiwn 'Beth yw gwastraff?' i ddysgwyr. Gofynnir iddynt greu map meddwl* i ddangos eu syniadau, er y gallant ddechrau ddefnyddio meddwl-paru-rhannu* i fynegi eu meddyliau i ddechrau.</p> <p>Mae cwestiynau yn annog dysgwyr i ystyried beth mae'r gair 'gwastraff' yn ei olygu, beth mae pobl yn ei wastraffu a'r hyn maen nhw'n ei feddwl yw'r gwastraff mwyaf.</p> <p>Mae gweithgaredd yn annog dysgwyr i dynnu llun sut mae y gwastraff yn edrych,</p>	<p>Cyfle dysgu:</p> <p>Mae dysgwyr yn ystyried beth yw gwastraff.</p> <p>Adnoddau ychwanegol:</p> <p>http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130429how-to-develop-thinking-cy.pdf</p>
-------------------------------------	--	--

	cymryd ffotograffau o wastraff yn yr ysgol ac yn y cartref a gofyn i ffrindiau a theulu beth maen nhw'n ei feddwl yw gwastraff.	
Sgrin 2	<p>Defnyddio'r sgrin: Ar y sgrin hon, rhoddir y testun canlynol i ddysgwyr: <i>"Mae data ar reoli gwastraff yn cael ei gasglu er mwyn monitro cynnydd tuag at dargedau cenedlaethol a lleol; yn enwedig yn erbyn gofynion y Gyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff a'r Gyfarwydddeb Tirlenwi. Yn ei strategaeth wastraff gyfredol 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' (2010), gosododd Llywodraeth Cymru dargedau statudol o ailgylchu 70 y cant o wastraff erbyn 2024-25."</i></p> <p>Darperir graff llinell i'r dysgwyr sy'n dangos y canran o wastraff sy'n cael ei ailgylchu. Gofynnir iddynt ddefnyddio'r graff i benderfynu a yw'r targed o 70% yn debygol o gael ei fodloni ac i ddisgrifio ac esbonio eu syniadau.</p> <p>Mae gweithgaredd yn gwahodd dysgwyr i gynllunio strategaeth i leihau gwastraff cartrefi ar gyfer eu cartrefi eu hunain. Efallai y byddant yn ystyried sut i fesur canran y gwastraff cartref sy'n cael ei aildefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio a sut y gellid cynyddu hyn yn gyffredinol.</p> <p>Gallant ddefnyddio mesuriadau i osod targedau a thrafod y rhain o fewn y grŵp ac adolygu os oes angen. Dylid annog dysgwyr i weithredu eu strategaeth ac i gasglu data dros gyfnod o amser. Gallant arddangos eu data eu hunain a data'r grŵp er mwyn dangos pa mor dda y mae strategaethau wedi gweithio ac yna adrodd eu canfyddiadau ac effeithiolrwydd eu strategaethau i'r dosbarth.</p>	<p>Cyfle dysgu: Mae dysgwyr yn archwilio data ac yn cynllunio strategaeth i leihau gwastraff cartrefi.</p> <p>Adnoddau ychwanegol: http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130429how-to-develop-thinking-cy.pdf</p> <p>Cysylltiadau defnyddiol: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Environment-and-Countryside/Waste-Management/Local-Authority-Municipal-Waste http://gov.wales/statistics-and-research/local-authority-municipal-waste-management/?skip=1&lang=cy</p>
Sgrin 3	<p>Defnyddio'r sgrin: Mae dysgwyr yn cael mynediad at dudalen we 'Ffeithiau gwastraff tirlenwi' ac fe'u gwahoddir i archwilio'r adnodd hwn, gan rannu a thrafod syniadau mewn pâr neu grŵp bychan. Fe'u hanogir i edrych ar dudalennau eraill ar y wefan ac i wneud nodiadau am y</p>	<p>Cyfle dysgu: Mae dysgwyr yn archwilio ffeithiau a honiadau a wneir am wastraff tirlenwi.</p>

	<p>ffeithiau a'r honiadau y maent yn eu canfod. Darperir cwestiynau i ysgogi trafodaeth.</p> <p>Mae gweithgaredd yn gwahodd dysgwyr i wneud mwy o ymchwil, adrodd canfyddiadau i'r dosbarth ac yna i ddylunio a chreu tudalen we ar gyfer yr ysgol. Gofynnir iddynt ystyried pa wybodaeth sydd ei hangen arnynt cyn gwneud honiadau am wastraff o'r ysgol, sut y byddant yn ei gasglu a pha gyfrifiadau sydd angen eu gwneud.</p>	<p>Cysylltiadau defnyddiol: https://your.caerphilly.gov.uk/kidsgogreen/cy/ffeithiau-ffantastig/ffeithiau-tirlenwi</p>
<p>Sgrin</p> <p>4</p>	<p>Defnyddio'r sgrin: Mae dysgwyr yn ystyried a ellir gwella cyfraddau ailgylchu. Ar y sgrin, mae siart cylch sy'n dangos i ba raddau mae pobl yn credu eu bod yn ailgylchu. Mae dysgwyr yn rhannu a thrafod eu syniadau ynghylch pa wybodaeth a ddangosir gan y siart cylch ac fe'u gwahoddir i gynnal ymchwil ynglŷn â beth a faint y mae'r ysgol yn ei ailgylchu. Defnyddiant siart cylch rhyngweithiol i ddangos eu canfyddiadau.</p> <p>Mae gweithgaredd mewn swigen yn gwahodd dysgwyr i gynllunio ymgyrch i gynyddu'r ailgylchu a wneir yn yr ysgol. Maent yn ystyried sut i ddarganfod a mesur yr hyn y mae'r ysgol yn ei ailgylchu; sut i arddangos y data hwn; sut y byddan nhw'n defnyddio'r data hwn i berswadio pobl i ailgylchu mwy ac a ddylid gosod targedau ailgylchu. Fe'u hanogir i gynnal yr ymgyrch a chynllunio sut i fonitro gweithrediad yr ymgyrch, gan gynnwys beth i'w fesur a sut i werthuso llwyddiant ac effaith yr ymgyrch.</p>	<p>Cyfle dysgu: Mae dysgwyr yn ystyried a ellir gwella cyfraddau ailgylchu ysgolion trwy ymgyrch weithredol.</p>